

---

## **Newyddion plant y BBC a rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf**

Datganiad ar gais gan y BBC i wneud newidiadau i'w  
Drwydded Weithredu

---

### **DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Gorffennaf 2020

# Cynnwys

---

## Adran

Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn egluro penderfyniadau terfynol Ofcom yn dilyn cais gan y BBC i newid ei Drwydded Weithredu er mwyn iddo allu cyflawni ei ymrwymïadau newyddion a chynnwys newydd i blant drwy gynyddu ei ddarpariaeth ar-lein. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad a gyhoeddwyd gennyn ni ym mis Tachwedd 2019 yn nodi ein safbwyntiau cychwynnol.**

Mae ein hymchwil yn dangos bod plant yn gwylio mwy o gynnwys ar-lein, tra bod cyrhaeddiad teledu llinol, ar set deledu yn parhau i ostwng ymysg plant.<sup>1</sup> O Ebrill-Mai 2020, yn ystod y cyfyngiadau symud, gwnaeth mwy o blant wylïo'n llinol, ond mae'n dechrau syrthio yn barod.<sup>2</sup> O ystyried y newidiadau hyn, mae'n rhaid i'r BBC arloesi ac addasu ei ddull o weithredu er mwyn parhau'n berthnasol i'w gynulleidfaeodd ieuengaf.

Yn Adroddiad Diweddaraf Ofcom ar y BBC<sup>3</sup>, fe wnaethon ni ddweud bod angen i'r BBC weithïo'n galetach i gyrraedd pobl ifanc drwy wneud cynnwys sy'n apelïo iddyn nhw a sicrhau ei fod ar gael yn hawdd pan maen nhw ei eisïau. Os nad ydy cynulleidfaeodd ifanc yn ymgysylltu gyda'r BBC, yna gallai cefnogaeth ar gyfer ffi'r drwydded gael ei erydu, sy'n risg sylweddol i gynaliadwyedd y BBC yn y dyfodol. Rydyn ni'n cydnabod bod cynlluniau'r BBC i wella ei ddarpariaeth ar-lein wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r herïau hyn ac ymgysylltu'n well â chynulleidfaeodd iau. Rydyn ni eisoes wedi bod yn glir y bydd angen i'r Drwydded Weithredu esblygu, wrth i arferïon gwylio a gwrando pobl newid. Bydd hyn yn sicrhau ei fod dal yn effeithiol o ran dal y BBC i gyfrif tra'n caniatáu digon o hyblygrwydd i arloesi gyda'i raglenni a'i wasanaethau.

Wrth gyrraedd ein penderfyniadau terfynol ar gynïgion y BBC, rydyn ni wedi ystyried yn ofalus yr holl adborth i'n hymgynghoriad. Rydyn ni hefyd wedi ystyried effaith yr argyfwng Covid-19 ar y cynïgion.

Yn olaf, rydyn ni wedi ystyried effaith bosib newidiadau arfaethedig y BBC ar gynulleidfaeodd ac ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, ynghyd â sut y byddan nhw'n cyfrannu at ddarparu ei genhadaeth a'i ddibenïon cyhoeddus a darparu cynnwys nodedig.

Nodwn ein bod ni wedi bwriadu gwneud ein penderfyniad yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn i'r newidiadau allu dod i rym erbyn 1 Ebrill 2020, dechrau ein cyfnod adrodd 2020/21 i'r BBC. Ond,

---

Canfu adroddiad<sup>1</sup> [Ofcom Plant a Rhieni: Plant a Rhieni: Agweddau a'r defnydd o'r cyfryngau 2019](#) fod 80% o blant rhwng 5 a 15 oed yn gwylio rhyw fath o gynnwys fideo ar-alw, ffigur sydd wedi dyblu o 44% yn 2015. Mewn cymhariaeth, mae tri chwarter plant 5 i 15 oed yn gwylio teledu llinol. Mae ffigurau gan BARB yn dangos bod gwylio ymysg plant 4 i 15 oed yn 2018 wedi gostwng o dros awr ers 2017, a gwelodd 2019 barhad o'r gostyngiad hwn. Yn ystod y cyfnod clo (mis Ebrill-mis Mai 2020), bu cynnydd mewn gwylio llinol ymysg plant, ond mae eisoes yn gostwng eto. Mae ffigurau gan BARB yn dangos bod cyrhaeddiad wythnosol ymysg plant 4-15 oed wedi parhau i ostwng ers 2019, gan ostwng o 83.7% i 82.8% o fis Ionawr i fis Mai 2020. Yn y cyfamser, mae'r BBC wedi rhoi gwybod i ni fod y defnydd o wefan Newsround a faint sy'n gwylio CBBC a Cbeebies a'r iPlayer yn parhau i gynyddu.

<sup>2</sup> Mae ffigurau BARB yn dangos o blith plant 4-15 bod cyrhaeddiad wythnosol wedi parhau i ddisgyn ers 2019, yn syrthio o 83.7% i 82.8% ym mis Mehefin hyd at fis Mai 2020.

<sup>3</sup> 2019, Ofcom. [Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC](#).

4. Dywedodd y BBC wrthon ni bod gwefan Newsround wedi denu'r nifer gwylwyr uchaf yn ystod y cyfnod clo, tra bod gwrando ar fletinau wedi parhau i ddisgyn. Gwnaeth nifer gwylwyr sianel CBBC syrthio hefyd, tra bod gwylio cynnwys plant ar BBC iPlayer wedi cynyddu.

gwnaeth Ofcom benderfynu gohirio gwneud unrhyw benderfyniadau ymgynghoriadau nad oeddent yn hanfodol ar ddechrau'r cyfnod cyfyngiadau symud. Ar wahân, cyhoeddodd yn BBC ei fwriad o gadw ei amserlen newyddion plant presennol trwy ddechrau'r cyfnod clo.

### **Ein penderfyniad – yn gryno**

**Rydyn ni'n credu ei fod yn gwneud synnwyr i'r BBC ddarparu rhangor o'i gynnwys i blant ar-lein.** O ystyried y newidiadau yn y ffordd y mae plant yn gwyllo'r cyfryngau, gallai hyn helpu'r BBC i ymgysylltu'n well â'i gynulleidfa oedd iau, a fydd yn hanfodol i'w lwyddiant yn y dyfodol. Y dystiolaeth sydd gennym ni yw bod y tueddiadau a nodwyd wedi parhau yn ystod yr argyfwng Covid-19.<sup>4</sup>

**Felly, rydyn ni wedi penderfynu derbyn cais y BBC i wneud newidiadau i'w Drwydded Weithredu, ond gyda mesurau diogelu pwysig ychwanegol.** Bydd y rhain yn sicrhau bod y BBC yn cynnal safon ei gynnwys i blant ar draws ei lwyfannau, ac yn monitro effaith ei gynlluniau ar-lein yn gywir.

**Yn gryno, rydyn ni wedi penderfynu gwneud y newidiadau canlynol i Drwydded Weithredu'r BBC:**

- Derbyn ceisiadau'r BBC i leihau'r lleiafswm o newyddion y mae gofyn iddo eu darlledu ar CBBC o 85 awr y flwyddyn i 35 awr y flwyddyn a chaniatáu i'r BBC ddangos newyddion unwaith y diwrnod yn hytrach nag yn achlysurol drwy gydol y dydd.
- Cyflwyno amod newydd fydd yn golygu bod yn rhaid i'r BBC ddarparu newyddion dyddiol i blant ar-lein drwy gynnwys fydd yn cael ei ddarparu mewn nifer o wahanol fformatau; yn trafod amrywiaeth eang o bynciau; ac yn cynnwys newyddion manwl a dadansoddiadau. Bydd hyn yn sicrhau bod y BBC yn ehangu hyd a lled ei wasanaeth newyddion i blant ar-lein.
- Derbyn cais y BBC i leihau'r cwota ar gyfer rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar gyfer cynnwys i blant ar CBBC o 400 awr i 350 awr. Mae hyn er mwyn ystyried y gostyngiad o 50 awr yn yr oriau o newyddion llinol i blant a fydd yn cael eu darlledu ar CBBC.
- Derbyn cais y BBC i ddiwygio'r diffiniad o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf er mwyn i'r BBC allu rhoi cynnwys i blant sy'n cael ei gomisiynu'n arbennig ar gyfer BBC iPlayer, neu sy'n cael ei ryddhau ar BBC iPlayer yn unig, tuag at ei gwotâu o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf.
- Cyflwyno gofynion trwydded newydd -i sicrhau bod o leiaf hanner y rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar gyfer plant ifanc a phlant cyn oed ysgol, yn cael eu darparu ar sianeli llinol CBBC a CBeebies. Gallai hyn fod cyn, neu ar ôl, i'r cynnwys gael ei ddangos ar BBC iPlayer. Mae'r gofynion hyn yn fesur diogelu a fydd yn sicrhau bod sianeli llinol y BBC yn parhau i ddangos cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro.

**Rydyn ni wedi ystyried goblygiadau'r argyfwng Covid-19 yn ein penderfyniadau.** Er gwaethaf yr amgylchiadau unigryw yn sgil yr argyfwng, mae'r rhesymau sylfaenol dros wneud y newidiadau hyn yn parhau'n berthnasol.

**Byddwn ni'n monitro effaith y newidiadau hyn yn agos, ac yn ychwanegu mesurau newydd i'n fframwaith mesur perfformiad ar gyfer y BBC.** Bydd hyn yn gadael i ni sicrhau bod y manteision i gynulleidfaoedd iau rydyn ni wedi'u nodi yn cael eu gwireddu ac yn sicrhau ein bod yn gwarchod rhag y risgiau posib.

**Os bydd gennyn ni bryderon am berfformiad y BBC wrth ddarparu cynnwys i blant yn y dyfodol, byddwn ni'n cymryd camau priodol i sicrhau ei fod yn gwireddu ei ymrwymadau o dan y Siarter a'r Cytundeb.** Efallai bydd y camau hyn yn cynnwys gosod gofynion mwy rhagnodol yn Nhrwydded Gweithredu'r BBC.